# Plymio ym Mharth Cadwraeth Morol Skomer – Gwybodaeth ddiogelwch

Cydnabyddir bod plymwyr yn ofalus ynghylch diogelwch. Fodd bynnag, weithiau mae plymwyr yn dod i gryn drafferth o gwmpas Skomer; bwriedir y bydd y wybodaeth sydd yn y daflen hon yn eich helpu i osgoi ychwanegu at ystadegau damweiniau plymio Gwylwyr y Glannau E.M.
Mae'r wybodaeth yn y daflen hon yn benodol i Barth Cadwraeth Morol Skomer. Anogir plymwyr i gadw'r canllawiau diogelwch a gyhoeddwyd gan eu sefydliadau plymio eu hunain, yn arbennig o ran y defnydd o fwiau marcio a'r faner-A genedlaethol. Dylai defnyddwyr cychod ufuddhau i argymhellion gwylwyr y glannau ar gyfer rhagofalon diogelwch a chyfarpar addas ar gyfer gweithredu mewn ardal a allai fod yn beryglus.

Gwylwyr y Glannau E.M.
Mae gorsaf leol Gwylwyr y Glannau E.M. wedi'i lleoli yng Nghanolfan Gweithrediadau Gwylwyr y Glannau Aberdaugleddau; rhif ffôn 01646 690909, sianel VHF 16, arwydd galw "Milford Haven Coastguard". Mae Gwylwyr y Glannau yn croesawu derbyn hysbysiadau o weithgareddau plymio, a hefyd pan fyddant wedi'u cwblhau'n saff. Os bydd cyfathrebu VHF yn wan o dan y clogwyni, symudwch ymhellach allan i wneud galwad.

MEWN ARGYFWNG, FFONIWCH WYLWYR Y GLANNAU AR UNWAITH HYSBYSWCH WYLWYR Y GLANNAU YN GYNNAR MEWN UNRHYW DDIGWYDDIAD NEU AR UNRHYW ADEG PAN FOD ANSICRWYDD YNGHYLCH DIOGELWCH PLYMIWR.

LLANWAU A CHERHYNTAU
Mae ffrydiau llanwol yn gryf iawn bron ym mhob man o gwmpas Ynys Skomer. Yn ystod llanwau'r gwanwyn, mae'r cerhyntau'n mynd y tu hwnt i saith not yn Jack a Little Sounds a phedwar not oddi ar arfordir gorllewin Skomer. Gellid disgwyl geirwyau môr hyd yn oed mewn tywydd braf lle mae'r llanwau ar eu cryfaf; yn y Sounds ac oddi ar Garland Stone, Mewstone ac arfordir gorllewin Skomer.

Mae **dyfroedd dyfnion** yn agos at y lan mewn nifer o rannau o'r Parth Cadwraeth Morol; byddwch yn ofalus o'r cyfuniad o ddŵr dwfn a cherhyntau cryfion.

Mae cerhyntau am i lawr i mewn i ddŵr dwfn mewn nifer o leoliadau o gwmpas yr ynys. Peryglon penodol yw:

- Cerhyntau trolig i ddyfnderau o 50 medr ar ochr ogleddol Jack Sound a achosir gan gerhyntau cryfion yn ystod y ffrydiau llanwol (llifol) sy'n mynd tua'r gogledd. PEIDIWCH Â phlymio Jack Sound mewn cerrynt sy'n mynd tua'r gogledd.
- Cerhyntau trolig i mewn i ddŵr dyfnach i'r gogledd o Bull Hole, y Mewstone a'r Garland Stone yn ystod ffrydiau trai a llifogydd.

Mae'r cerhyntau cryfion, amrywiol ac anrhagweladwy o gwmpas y rhan fwyaf o'r Parth Cadwraeth Morol wedi ysgubo plymwyr ymhell oddi wrth y man ble gwnaethant ddechrau plymio; bydd defnyddio bwiau marcio amlwg ar bob amser ym mhob ardal sy'n agored i gerhyntau yn lleihau'r risg o gychod cymorth yn colli cysylltiad â phlymwyr i'r eithaf.

**Distyll** Mae'r cerhyntau llanwol o gwmpas Skomer yn gymhleth ac mewn rhai mannau mae'n anodd rhagweld distyll. Mae cryfder cerhyntau a distylliau'n amrywio dros bellterau byr iawn o gwmpas yr ynys ac mae ôl-drolifau lleol. **Mae mapiau'r distylliau a'r ffrydiau llanw yn ganllaw yn unig.**

**DEFNYDDWYR CYCHOD**

Byddwch yn wyliadwrus o blymwyr eraill a pharchwch y faner-A a bwiau marcio plymwyr. Byddwch ar wyliadwriaeth arbennig ar gyfer plymwyr y lan yn Martin's Haven.
Nid yw cychod cymorth i blymwyr yn effeithiol pan fyddant wedi eu hangori, a sut bynnag, anogir pobl i beidio ag angori'n ddiangen am resymau cadwraeth. Oherwydd cryfder y cerhyntau llanwol a dyfnder y dŵr yn agos at y lan, hyd defnyddiol lleiaf rhaff angor yw 60m.

**MARTIN'S HAVEN**

Rhwng y gwanwyn a diwedd yr hydref, mae cwch teithwyr Ynys Skomer yn gweithredu i ac o'r lanfa yn Martin's Haven sawl gwaith y dydd. Pan fo wrth ochr y lanfa, mae propelor y cwch yn parhau i droi. Mae'r cwch yn bacio i ffwrdd o'r lanfa. Ni all y cychwr weld plymwyr cyfagos yn y dŵr, ond bydd yn gwneud caniad rhybudd bod y cwch yn mynd am yn ôl – tri chaniad byr. Gall Martin's Haven fod yn brysur gyda chychod plymio hefyd.

Pan fyddwch yn plymio yn Martin's Haven:

- Defnyddiwch fwi marcio
- Cadwch wrth ochrau'r porthladd
- Cadwch draw o'r lanfa ar bob amser
- Peidiwch â nofio wrth ochr, y tu ôl neu o dan gwch teithwyr yr ynys, neu unrhyw gwch arall, yn y lanfa.

**LLONGDDRYLLIAD Y *LUCY***

Mae'r llongddrylliad yn gorwedd mewn dŵr dwfn, 32m i'r blaenfwrdd, a thros 40m i wely'r môr ar ddistyll; mae'n destun cerhyntau cryfion yn ystod rhai o gyflyrau'r llanw.
Mae bwi i ddynodi lleoliad y *Lucy* er hwylustod plymwyr ac i achub y blaen ar angorau'n cael eu llusgo ar hyd gwely'r môr i'w leoli.
Mae cwch teithwyr yr ynys, cychod plymio ac iotiau'n teithio'n agos at fwi marcio'r *Lucy* yn aml. Wrth blymio ar y *Lucy*, sicrhewch eich bod yn codi i'r wyneb ar bwys y bwi marcio neu eich cwch neu defnyddiwch fwi marcio "gohiriedig" i godi i'r wyneb.

**CAMAU GWEITHREDU MEWN ARGYFWNG**

Mae camau a gymerir i rwystro rhag anaf personol neu golled bywyd, neu i achub cwch, yn eithriedig rhag yr is-ddeddfau a'r Cod Ymddygiad, gan gynnwys cyfyngiadau cyflymder y Parth Cadwraeth Morol.


Rheolir Parth Cadwraeth Morol Skomer gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cadwraeth a gwaith ymchwil. Er nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am ddiogelwch plymwyr tra byddant yn ardal y Parth Cadwraeth Morol, dymuna hysbysu defnyddwyr o beryglon penodol ardal y Parth Cadwraeth Morol. Trwy osod bwi wrth longddrylliad y *Lucy*, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb ac mae plymwyr yn plymio ar y *Lucy*, fel ym mhob rhan arall o'r Parth Cadwraeth Morol, ar eu cyfrifoldeb eu hunain.

Cynhyrchwyd testun y daflen hon gan Bwyllgor Cynghori ar Ddiogelwch Parth Cadwraeth Morol Skomer (Gwylwyr y Glannau E.M., Clwb Tanddwr Prydain, Cyngor Sir Penfro (Diogelwch Dŵr), Cwmni Hwylio Dale, Cyngor Chwaraeon Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru).

# CANLLAW DISTYLL

AMSERAU DISTYLL
Mae'r amserau distyll ar y map hwn yn cyfateb i amserau pan gafodd distyll ei gofnodi. Nid yw'r map yn derfynol, ond dylid ei ddefnyddio fel canllaw. Mae'r amserau'n gysylltiedig i'r penllanw (HW) a'r trai (LW) yn Aberdaugleddau. Mewn rhai lleoliadau, dangosir amserau distyll ar gyfer y gorllanw (S) a'r llanw bach (N) (e.e. mae LW(S)+2 yn golygu dwy awr ar ôl y trai yn ystod y gorllanw).

| | |
|---|---|
| 1 | HW (N) + 2.5;<br>LW + 2 → 2.5; |
| 2 | LW + 1 → 3.5;<br>HW + 2.5; |
| 3 | LW → LW + 4;<br>HW + 1 → 4; |
| 4 | LW (N) + 0.5 → 4; LW (S) + 1 → 3;<br>HW (N) + 1.5 → 3.5; HW (S) + 2.5; |
| 5 | LW (N) + 1 →+ 4.5; LW (S) + 1.5 → 3.5;<br>HW (N) + 1 →+ 3.5; HW (S) + 1.5 → 2.5; |
| 6 | LW + 1 → 2.5;<br>HW + 2 →+ 4.5; |
| 7 | LW - 0.5 →+ 5;<br>HW (N) +2 →+ 6; |
| 8 | LW + 2.25 → 2.75;<br>HW + 2.25 → 2.75; |
| 9 | LW →+ 5;<br>HW + 1 → LW; |
| 10 | LW + 2.5 → 3;<br>HW +3; |
| 11 | LW + 2.25 → 2.75;<br>HW 3; |
| 12 | LW + 2.5;<br>HW + 2.5; |
| 13 | HW + 1.5;<br>LW + 2.5; |
| 14 | LW + 2 → 3; |
| 15 | LW (N) + 2 → 2.5; LW (S) + 2;<br>HW (N) 2.25 → 2.75; HW (S) + 2.25; |
| 16 | LW → HW;<br>HW + 2 → LW; |
| 17 | LW (N) →+ 1.5;<br>LW (S) →+ 1.5;<br>HW + 3.5 → 5; |
| 18 | LW →<br>LW + 2;<br>HW + 2.25 → 4; |
| 19 | LW + 2 → 2.5;<br>HW + 3.5 → 4; |
| 20 | LW + 2.5;<br>HW (N) + 3.5;<br>HW (S) + 4; |
| 21 | LW + 2 → 4;<br>HW + 3 > 5; |
| 22 | LW + 2.5 → 3;<br>HW (N) + 2.5 → 3.5;<br>HW (S) + 3; |
| 23 | LW + 2.5 → 3;<br>HW + 3.5; |
| 24 | LW (N) +2 → 4;<br>LW (S) + 2 → 3;<br>HW (N) + 1.5 → 3.5;<br>HW (S) +2 → 3; |




Cerrynt gwan neu ddim cerrynt y rhan fwyaf o'r amser, ac eithrio dros benllanw.

Cerrynt gwan neu ddim cerrynt.

Bras derfyn.

## FFRYDIAU LLANWOL

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | 1 -2 not | (N) | Y llanw bach yn unig |
| 3 | 3 -4 not | (S) | Y gorllanw yn unig |
| 5 | 5+ not | | Distyll |

